**EITEM RHAGLEN: 11**

## AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

**20 Hydref 2008**

## RHEOLI'R TRYSORLYS A DANGOSYDDION DARBODUS

**Adroddiad gan Ken Finch, Trysorydd**

### Pwrpas yr Adroddiad

**1.** Mae'n ofynnol yn ôl Cod Darbodus CIPFA ar gyfer Cyllid Cyfalaf bod Dangosyddion Darbodus yn cael eu monitro'n rheolaidd a bod unrhyw newidiadau sylweddol yn cael eu cymeradwyo gan yr Awdurdod Tân. Yn yr un modd, dan God Ymarfer CIPFA ar Reoli Trysorlys mae angen rhoi gwybod i'r Awdurdod Tân am unrhyw fenthyciadau tymor hir a newidiadau i gydbartïon yr Awdurdod.

### Cyflwyniad

**2.** Cymeradwywyd Dangosyddion Darbodus a Strategaeth Rheoli Trysorlys 2008-2009 gan yr Awdurdod Tân ym mis Mawrth 2008. Ers eu cymeradwyo mae'r Dangosyddion Darbodus a amcangyfrifwyd ar gyfer 2008-2009 ymlaen wedi newid. Hefyd mae dau fenthyciad wedi eu rhoi gan y Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus a rhai newidiadau i'r rhestr o gydbartïon.

### Dangosyddion Darbodus 2008-2009

**3.** Mae'r Dangosyddion Darbodus ar gyfer 2008-2009 wedi newid yn sgil llithriant yn y rhaglen gyfalaf ar gyfer 2007-2008.
Mae'r Nawdd Cyfalaf Gofynnol yn fesur o ddyled tymor hir sydd ei hangen i gefnogi rhaglen gyfalaf yr Awdurdod; mae'r Ffin Weithredol yn fesur o'r uchafswm posibl o ran dyled allanol gan ganiatáu amrywiadau yn y llif arian; ac mae'r Terfyn Awdurdodedig yn amcangyfrif o'r uchafswm y gallai'r Awdurdod

fenthyca yn seiliedig ar asesu gofynion gweithredol a risgiau allanol. Mae'r tri prif ddangosydd wedi newid ar gyfer 2008 -2009. Mae cynnydd mewn gwariant cyfalaf o'i gymharu â'r amcangyfrif gwreiddiol oherwydd na chwblhawyd cynlluniau'n llawn yn 2007-2008 gan barhau yn 2008-2009.
Yn Atodiad A rhestrir y dangosyddion a adroddwyd ym mis Mawrth a'r dangosyddion diwygiedig.

**4. Benthyciadau Newydd**

Cymrwyd dau fenthyciad PWLB newydd o wariant y gronfa gyfalaf, ac mae manylion y benthyciadau i'w gweld isod.

| Prif swm £ | Cyfradd % | Dyddiad y Benthyciad | Cyfnod | Benthyciwr |
|---|---|---|---|---|
| 1,500,000 | 4.44 | 13/05/2008 | 3 ½ mlynedd | PWLB |
| 1,500,000 | 4.27 | 23/09/2008 | 2 ½ mlynedd | PWLB |

**Cydbartïon a Benthyciadau**

**5.** Gwneir yr holl fuddsoddiadau gyda cydbartïon cymeradwy ac mae staff Rheoli Trysorlys CBS Conwy yn monitro statws credyd y cydbartïon. Os oes gostyngiad yn y statws credyd a'i fod yn gostwng yn is na'r criteria dewisol yna caiff ei dynnu oddi ar y rhestr o gydbartïon. Rhestrir y cydbartïon presennol yn Atodiad B.

**6.** Mae'r buddsoddiadau presennol yn amrywio rhwng £1m a £2m ac yn codi a gostwng yn unol â gofynion o ran llif arian. Mae'r gostyngiad mewn buddsoddiadau yn digwydd o ganlyniad i'r gostyngiad yn lefel y darpariaethau sy'n cael eu cadw a threfniadau cyllido newydd Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân.

**Argymhellion**

**7.** Argymhellir bod Aelodau'n
- cymeradwyo'r Dangosyddion darbodus diwygiedig
- nodi'r rhestr ddiwygiedig o gydbartïon
- nodi'r benthyciadau a aildrefnwyd.

***ATODIAD A***

**DANGOSYDDION DARBODUS**

| | | **2008/09** **£** | **2009/10** **£** | **2010/11** **£** |
|---|---|---|---|---|
| 1 | Gwariant Cyfalaf<br>Dangosydd Gwreiddiol<br>Dangosydd Newydd | <br>6,313,980<br>9,298,687 | <br>3,550,000<br>4,000,000 | <br>3,765,000<br>4,000,000 |
| 2 | Nawdd Cyfalaf Gofynnol<br>Dangosydd Gwreiddiol<br>Dangosydd Newydd | <br>18,084,000<br>19,049,000 | <br>20,339,000<br>21,548,000 | <br>22,311,000<br>23,802,000 |
| 3 | Terfyn Awdurdodedig<br>Dangosydd Gwreiddiol<br>Dangosydd Newydd | <br>21,084,000<br>22,049,000 | <br>23,339,000<br>24,548,000 | <br>25,311,000<br>26,802,000 |
| 4 | Ffin Weithredol<br>Dangosydd Gwreiddiol<br>Dangosydd Newydd | <br>18,084,000<br>19,049,000 | <br>20,339,000<br>21,548,000 | <br>22,311,000<br>23,802,000 |
| 5 | Cymhareb Costau Ariannol i Lif Ariannol Refeniw Net<br>Dangosydd Gwreiddiol<br>Dangosydd Newydd | <br>5.77%<br>5.17% | <br>7.49%<br>7.56% | <br>8.30%<br>8.38% |
| 6 | Effaith Gynyddrannol Penderfyniadau Buddsoddi Cyfalaf ar Gyfraniadau gan yr Awdurdodau cysylltiedig<br>Dangosydd Gwreiddiol<br>Dangosydd Newydd | <br>148,378<br>204,571 | <br>757,967<br>1,135,925 | <br>1,240,669<br>1,622,415 |

***ATODIAD B***

## BUDDSODDIADAU CYDBARTÏON

**Cyfyngiad y Banciau o £5m - Dim Newid**
Barclays, HSBC, Lloyds TSB, National Westminster, Royal Bank of Scotland, Abbey, Bank of Scotland, Alliance & Leicester, Bank of Ireland, Allied Irish Bank, Anglo Irish Bank, Clydesdale, Irish Permanent, IIB Bank, Ulster Bank a Citibank.

**Cyfyngiad Llywodraeth Ganol o £5m – Dim Newid**
Swyddfa Rheoli Dyled

**Cyfyngiad Awdurdodau Lleol o £2m – Dim Newid**
Pob un heblaw am y rhai sy’n agored i derfyn treth y cyngor a praeseptau dan Adran 1 Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992. h.y. Wedi’i gadw yr un fath yn y flwyddyn ariannol gyfredol.

**Cymdeithasau Adeiladu terfyn £2m**

Rhestr Presennol
Chelsea, Nationwide, Skipton, Coventry, Leeds, Newcastle a Yorkshire.

Wedi’u tynnu o’r Rhestr
Britannia, Principality a West Bromwich.